| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y CYNGOR |
| **DYDDIAD** | 1 MAWRTH 2012 |
| **TEITL** | AWDURDODI MWYNDERAU CAFFI AR Y BRIFFORDD |
| **PWRPAS** | YMATEB I RYBUDD O GYNNIG |
| **ADRODDIAD GAN** | ALED DAVIES - PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Y CYNGHORYDD W GARETH ROBERTS, UWCH ARWEINYDD PORTFFOLIO - AMGYLCHEDD |

**1. CEFNDIR**

1.1 Cyflwynwyd rhybudd o gynnig ar y mater yma i'r Cyngor ar 20 Hydref, 2011. Penderfynodd y Cyngor gyfeirio'r cynnig i'w ystyried gan Bwyllgor Craffu yr Amgylchedd.

1.2 Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Adran Rheoleiddio ar Awdurdodi Mwynderau Caffi ar y Briffordd i Bwyllgor yr Amgylchedd ar 1 Rhagfyr, 2011.

**2. TRAFODAETHAU PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD**

2.1 Nododd y Pwyllgor bod gan y Cyngor ddyletswydd statudol dan Ddeddf Priffyrdd 1980 i leihau unrhyw niwsans a chael gwared ar unrhyw rwystrau anghyfreithlon sy'n ymyrryd a defnydd rhwydd a mwynhad o'r briffordd

2.2 Nodwyd bod gosod cyfleusterau ar gyfer caffis ar y briffordd heb awdurdod neu drwydded yn cael ei ystyried yn rhwystr ac felly yn drosedd dan wahanol ddarpariaethau'r Ddeddf.

2.3 Ym Mehefin 2006, penderfynodd yr awdurdod weithredu polisi o ganiatáu trwyddedau i ddarparu cyfleusterau caffis ar y palmant gan fod hyn yn galluogi'r awdurdod i hyrwyddo budd economaidd all ddeillio o ganiatáu mwynderau caffi mewn mannau penodol ond i reoleiddio a rheoli lleoli byrddau a chadeiriau ar y briffordd yn unol â'i ddyletswyddau statudol.

2.4 Clywodd y Pwyllgor bod y ffioedd cyfredol yn £30 y flwyddyn am bob bwrdd a roddir ac na fu cynnydd yn y ffioedd ers 2006.

2.5 Cyfartaledd cost trwydded yng Ngwynedd yw tua £100 yn 2011/12 ac mae'r incwm blynyddol o'r broses trwyddedu oddeutu £2,000. Rhagwelir y byddai yr incwm tua £4,500 pan weithredir y drefn ar draws y Sir gyfan. Nodwyd bod cost gweinyddu'r drefn i'r Cyngor oddeutu £300 y safle.

2.6 Clywyd dadleuon bod ffi'r drwydded yn gost ychwanegol i fusnesau mewn cyfnod o ddirwasgiad.

2.7 Nododd aelod bod cynrychiolwyr o’r grwpiau anabledd yn gefnogol i’r drefn trwyddedu gan ei bod yn un dull pwysig o leihau rhwystrau ar balmentydd sydd yn medru gorfodi pobl anabl, henoed a mamau gyda coitsys oddi ar y palmant i’r ffordd a’r llif traffig.

2.8 Tra yn awyddus eu gweld yn cael eu gosod mewn mannau priodol a’u defnyddio, roedd aelodau'r Pwyllgor yn awyddus i reoleiddio'r sefyllfa gyda chyfleusterau caffis ar y briffordd. Mynegwyd barn bod y drefn yn arf cryf gan y Cyngor i hwyluso mynediad i bawb ac i gyfrannu at gadw’r strydoedd yn ddiogel.

2.9 Clywodd y Pwyllgor y byddai rhaid canfod arbedion mewn meysydd eraill neu wneud bid am adnodau ychwanegol os penderfynir peidio codi tal am y trwyddedau yma ac felly adfer rhan o’r gost o’u gweinyddu. Mynegwyd pryder gan yr aelodau os byddai rhaid i’r Cyngor ysgwyddo baich ariannol ychwanegol.

2.10 Nodwyd bod y ffi a godir gan y Cyngor yn cymharu yn ffafriol gyda’r hyn a godir mewn Cynghorau eraill

**3. CASGLIADAU**

3.1 Ar sail y wybodaeth a gyflwynwyd penderfynodd Pwyllgor yr Amgylchedd i argymell i lynu at y strwythur ffioedd cyfredol.